

At: Aelodau'r Cabinet

Dyddiad: 12 Gorffennaf 2023

Rhif Union: 01824712568

ebost: [democrataidd@sirddinbych.gov.uk](mailto:democrataidd@sirddinbych.gov.uk)

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CABINET, DYDD MAWRTH, 18 GORFFENNAF 2023** am **10.00 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN A THRWY GYNHADLEDD FIDEO.**

Yn gywir iawn

G Williams  
Swyddog Monitro

## **AGENDA**

### **RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL YN Y RHAN HON O'R CYFARFOD**

#### **1 YMDDIHEURIADAU**

#### **2 DATGAN CYSYLLTIAD**

Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu sy'n peri rhagfarn ag unrhyw fater i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

#### **3 MATERION BRYG**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

#### **4 COFNODION (Tudalennau 7 - 16)**

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 27 Mehefin 2023 (copi ynghlwm).

**5 PREMIWM TRETH CYNGOR AR AIL GARTREFI / CARTREFI GWAG HIRDY MOR** (Tudalennau 17 - 84)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi ynghlwm) yn rhoi diweddariad i'r Cabinet ar yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y dewis i gynyddu premiwm treth y cyngor ar gyfer ail gartrefi a chartrefi gwag hirdymor a gofyn am farn y Cabinet ar gynigion i barhau â chodi premiwm ychwanegol ar y cartrefi hyn yn Sir Ddinbych.

**6 ADRODDIAD CYLLID** (Tudalennau 85 - 100)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi ynghlwm), yn glŷn â'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb.

**7 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET** (Tudalennau 101 - 106)

Derbyn Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet sydd ynghlwm a nodi'r cynnwys.

**RHAN 2 – EITEMAU CYFRINACHOL**

**GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

Argymhellir, yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod tra bydd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried oherwydd ei bod yn debygol y bydd gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu fel y'i diffinnir ym mharagraff 14, Rhan 4, Atodlen 12A y Ddeddf.

**8 DYFARNU CONTRACT GWASANAETHAU YSWIRIANT** (Tudalennau 107 - 116)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Cynghorydd Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi ynghlwm) yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ddyfarnu'r contract yswiriant sydd dan sylw yn yr adroddiad.

**9 AMRYWIO CONTRACT HIRSEFYDLOG I DDARPARU STAFF AR GYFER EIN GWASANAETH CYFLEOEDD GWAITH MEWNOL** (Tudalennau 117 - 140)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Cynghorydd Elen Heaton, Aelod Arweiniol Iechyd a Gofal Cymdeithasol (copi ynghlwm) yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ymestyn y contract cyfredol i ddarparu staff ar gyfer ein Gwasanaeth Cyfleoedd Gwaith mewnol fel mae'r adroddiad yn ei nodi.

## **MEMBERSHIP**

Y Cyngorwyr

Gwyneth Ellis  
Gill German  
Elen Heaton  
Julie Matthews  
Jason McLellan

Barry Mellor  
Win Mullen-James  
Rhys Thomas  
Emrys Wynne

## **COPIAU I'R:**

Holl Gyngorwyr er gwybodaeth  
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd  
Cyngorau Tref a Chymuned